

Meini Prawf Cymhwysedd Awtomatig	Tystiolaeth
Mae'r ymgeisydd yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (y Gyfradd Uwch)	Copi gwreiddiol o'r llythyr yn dyfarnu'r Gyfradd Uwch, yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf
Mae'r ymgeisydd yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel	Copi gwreiddiol o'r llythyr hawliad yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf
Mae'r ymgeisydd yn derbyn Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog (tariff 1-8)	Copi gwreiddiol o'r llythyr dyfarnu, sydd hefyd yn ardystio bod gennych anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu na allwch gerdded neu fod cerdded yn achosi anhawster sylweddol iawn i chi
Pobl y dyfarnwyd Tariff 6 iddynt – Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ar gyfer Anhwylder Meddwl Parhaol	Llythyr dyfarnu gwreiddiol sy'n dangos bod tariff 6 wedi'i ddyfarnu i'r ymgeisydd - Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ar gyfer Anhwylder Meddwl Parhaol
Mae'r ymgeisydd wedi'i gofrestru fel unigolyn â nam ar y golwg o dan adran 29(4)(g) Deddf Cymorth Gwladol 1948	Adroddiad gan offthalmolegydd neu ffurflen CV1/BD8 yn cadarnhau fod yr unigolyn "â nam difrifol ar y golwg (dall) neu wedi cofrestru gyda'r awdurdod lleol fel unigolyn â nam difrifol ar y golwg
Pobl sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol, fel y nodir: - Gweithgarwch Symudedd 1, disgrifiad f (12 pwynt); neu - Weithgarwch Symudedd 2, disgrifiadau c, d, e neu f (8 pwynt neu fwy)	Copi gwreiddiol o'r llythyr dyfarnu sy'n nodi'r sgôr ar gyfer pob disgrifiad gweithgarwch yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf

Meini Prawf Cymhwysedd Dewisol	Tystiolaeth
<p>Anabledd parhaol neu sylweddol sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n anodd iawn i gerdded</p>	<p>Tystiolaeth gan ymgynghorydd iechyd priodol y mae'r ymgeisydd yn glaf iddo; gall y dystiolaeth hon fod ar ffurf llythyr neu asesiad iechyd blaenorol sy'n cyfeirio at y cymhorthion cerdded a ddefnyddir a'r problemau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Poen eithafol wrth gerdded ac ar ôl cerdded,</li> <li>• Yn fyr eich gwynt,</li> <li>• Methu â cherdded yn bell,</li> <li>• Methu â cherdded am gyfnod hir</li> <li>• Osgo, rhythm, gallu i gydsymud, cydbwysedd a hyd y camau,</li> <li>• Gorfod defnyddio cymhorthion cerdded ac ocsigen</li> <li>• Methu â cherdded yn yr awyr agored, os yw hynny'n effeithio'n wahanol arnoch</li> </ul>
<p>Yn gyrru cerbyd yn rheolaidd, ag anabledd yn y ddwy fraich ac yn cael trafferth defnyddio offer parcio neu rai mathau o offer parcio</p>	<p>Dylai un o'r codau canlynol fod ar drwydded yrru'r ymgeisydd:</p> <p>40 – Llyw wedi'i addasu 79 – Cyfyngedig i gerbydau sy'n cydymffurfio â'r manylebau a nodir mewn cromfachau</p>
<p>Pobl sy'n achos arbennig gydag afiechyd terfynol a nam sy'n ei gwneud yn anodd iddynt symud</p>	<p>Ffurflen DS 1500 wreiddiol neu lythyr atebol gan nyrs McMillan, os yw hyn yn berthnasol</p>
<p>Plentyn o dan dair oed, sydd oherwydd ei gyflwr meddygol, yn ddibynnol ar offer meddygol swmpus. Rhaid i'r offer hwnnw fod gyda'r plentyn ar bob adeg ac ni ellir cludo'r offer heb gryn anhawster</p>	<p>Gall y cais gynnwys llythyr gan baediatregydd yn amlinellu cyflwr meddygol y plentyn a bod angen iddo ddefnyddio un neu fwy o'r mathau canlynol o offer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Peiriant anadlu</li> <li>• Peiriant sugno</li> <li>• Pwmp bwydo</li> <li>• Offer i'r rhieni</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Offer gwythiennol</li> <li>• Offer rhoi ocsigen</li> <li>• Offer monitro lefelau ocsigen yn barhaus</li> <li>• Castiau ac offer meddygol sy'n gysylltiedig â chywiro dysplasia'r clun</li> </ul>
<p>Plentyn o dan dair oed y mae angen iddo, oherwydd ei gyflwr meddygol, bob amser fod yn agos at gerbyd, rhag ofn y bydd angen trin y cyflwr hwnnw yn y cerbyd neu rhag ofn y bydd angen cludo'r plentyn yn gyflym yn y cerbyd i rywle lle y gall gael y driniaeth angenrheidiol</p>	<p>Llythyr gan baediatregydd yn amlinellu cyflwr meddygol y plentyn</p>
<p>Ymgeisydd sydd o ganlyniad i nam gwybyddol yn methu â dilyn trywydd siwrnai sy'n gyfarwydd iddo heb gymorth gan unigolyn arall</p>	<p>Tystiolaeth o fynychu Clinig Cof y Bwrdd Iechyd Lleol, bod ar gofrestr anabledd dysgu'r awdurdod lleol neu lythyr gan weithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n trin yr unigolyn, yn cynnwys manylion o'i gyflwr</p>